**Cytundeb ar gyfer meysydd i'w harchwilio drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar Wasanaethau Prawf yng Nghymru**

## Diben

1. Diben disgwyliedig y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yw adeiladu a chryfhau'r hyblygrwydd a'r partneriaethau presennol ledled Cymru i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf.

2. Mae'r ddogfen hon yn ymrwymo'r llofnodwyr i weithio gyda'i gilydd ar gwblhau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fel mater o flaenoriaeth.

## Llofnodwyr

3. Llofnodwyr y cytundeb hwn yw Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS), Gweinidogion Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu (PCCs).

4. Mae'r llofnodwyr yn cytuno i weithredu fel cynrychiolwyr aelodau a sefydliadau partner fel a ganlyn, gan ymgynghori â hwy fel y bo'n briodol i gyflawni amcanion y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth:

    - HMPPS i gynrychioli Llywodraeth y DU, y Gwasanaeth Prawf ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill a gedwir yn ôl yng Nghymru;

    - Comisiynwyr Heddlu a Throseddu (PCCs); a

    - Gweinidogion Cymru mewn perthynas â gwasanaethau datganoledig megis gofal iechyd, tai ac addysg a ddarperir i bobl sydd o dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf.

5. Bwriad y llofnodwyr yw y bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) hefyd yn llofnodwr allweddol i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

6. Mae'r llofnodwyr hyn wedi'u dewis gan y gallant gyda'i gilydd gynrychioli neu fod yn gyfrifol am yr holl brif sefydliadau sy'n ymwneud â chynnal diogelwch, iechyd a llesiant pobl yng Nghymru.

## Ymrwymiad

7. Bydd y llofnodwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i gytuno arno erbyn diwedd mis Rhagfyr 2026.

8. Bydd y llofnodwyr yn:

    - Archwilio sut i wella gweithio mewn partneriaeth leol, atebolrwydd lleol a darparu gwasanaethau sy'n cael eu sbarduno yn lleol;
    - Archwilio treialu neu fynd ar drywydd dulliau Cymru gyfan, lle bo'n berthnasol, ar gyfer darparu gwasanaethau.

- Archwilio mecanweithiau i symleiddio cydgomisiynu gwasanaethau ar draws sawl asiantaeth;
- Yn benodol, ystyried cyfleoedd ac opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â heriau cyfuno adnoddau rhwng gwasanaethau; ac
- Ystyried mabwysiadu datganiad o egwyddorion allweddol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar draws y sefydliadau i'w mabwysiadu ar draws yr holl sefydliadau perthnasol.

9. Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, mae'r llofnodwyr yn cytuno lle bynnag y bo'n bosibl ac yn briodol i weithio ar y cyd â:

    - staff gweithredol yn y Gwasanaeth Prawf a gwasanaethau cyhoeddus perthnasol eraill (megis gwasanaethau iechyd) sy'n gweithio gyda phobl sydd o dan oruchwyliaeth prawf,
    - pobl sydd â phrofiad bywyd o fod ar brawf,
    - sefydliadau'r trydydd sector,
    - cynrychiolwyr undebau llafur ac
    - academyddion ac arbenigwyr eraill

10. Bydd y gwaith yn cynnwys ymgynghori ag ardaloedd lleol ledled Cymru ar garfannau blaenoriaeth a/neu themâu trawsbynciol y gellid mynd i'r afael â hwy i ddechrau drwy'r mecanweithiau sydd i'w dyfeisio o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

11. Gallai enghreifftiau o garfannau neu themâu i'w hystyried ar gyfer ffocws cychwynnol gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

    o adeiladu ar y trefniadau presennol ar gyfer pobl ifanc 18-25 oed, ar y sail ei bod yn hysbys bellach fod datblygiad yr ymennydd yn parhau hyd at tua 25 oed. Gallai ffocws penodol posibl fod y profiad o bontio o'r system cyfiawnder ieuenctid i'r system oedolion;

    o adeiladu ar y trefniadau presennol ar gyfer menywod sydd o dan oruchwyliaeth prawf, ar y sail ei bod yn hysbys bod anghenion ac ysgogwyr troseddu ac aildroseddu yn achos menywod yn y system cyfiawnder troseddol yn wahanol;

    o archwilio sut i hybu mwy o ddefnydd o ganolfannau cymunedol megis y prosiect Grand Avenues yng Nghaerdydd, ar y sail bod canolfannau cymunedol tebyg hefyd wedi'u hystyried yn llwyddiannus mewn ardaloedd eraill megis ardal Prawf Manceinion Fwyaf. Gall y rhain ganiatáu mwy o ddefnydd o wasanaethau cymunedol lleol i gefnogi dioddefwyr, cymunedau a phobl sydd ar brawf;

    o tai, ar y sail bod pobl sy'n gadael carchar a phobl ar brawf, am nifer o resymau, yn ei chael yn anodd trafferth cael mynediad at lety priodol a chynnal llety priodol. Mae hyn yn creu llu o broblemau o ran diogelwch cymunedol a chynorthwyo adsefydlu;


- Archwilio llwybrau atgyfeirio at ddarparu cyflogadwyedd a sgiliau, ar y sail bod y trawsnewidiad o'r ddalfa i'r gymuned yn bwynt risg allweddol.

12. Disgwylir i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ymchwilio i fecanweithiau y gellid eu cymhwyso i ganiatáu canolbwyntio ar lefel leol ar un thema neu garfan ar y tro. Caiff y rhain eu datblygu gan ddilyn yr un drefn bob tro i ganiatáu hyblygrwydd i newid pan fo angen.

### Llywodraethiant


13. Bydd y llofnodwyr allweddol yn archwilio trefniadau llywodraethiant ar gyfer y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.  Bydd y trefniadau llywodraethiant yn adlewyrchu newidiadau perthnasol eraill o fewn y system gyfiawnder mewn perthynas â Phlismona a Chyfiawnder Ieuenctid.

Llofnodwyd dros ac ar ran
Llywodraeth Cymru




Jane Hutt AS,
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol

Llofnodwyd dros ac ar ran HMPPS



Ian Barrow, Cyfarwyddwr Gweithredol HMPPS

Llofnodwyd dros ac ar ran CHTs




Dafydd Llywelyn, CHT Dyfed-Powys



Jane Mudd, CHT Gwent



Andy Dunbobbin, CHT Gogledd Cymru



Emma Wools,
CHT De Cymru